Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y dilyniant: gwelliant sylweddol

**Ysgol Gynradd Gymraeg Bodringallt**
**Bryn Terrace**
**Ystrad**
**Pentre**
**RCT**
**CF41 7RX**

**Dyddiad yr ymweliad: Rhagfyr 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Kevin Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Anwen Griffith | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Gynradd Gymraeg Bodringallt wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym mis Mehefin 2013.
O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu enw'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Codi safonau medrau ysgrifennu estynedig y disgyblion ar draws y cwricwlwm

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ar draws yr ysgol, mae llawer o'r disgyblion yn derbyn profiadau ysgrifennu diddorol o fewn gwersi iaith a chaiff hyn ei ddatblygu'n gydlynus ar draws y meysydd dysgu a'r cwricwlwm cenedlaethol. Ers yr ymweliad diwethaf, mae'r ysgol wedi gosod nifer o strategaethau cadarn ar waith i ddatblygu ysgrifennu estynedig. Mae arddangosfeydd o waith ysgrifenedig y dysgwyr yn dathlu llwyddiant yn effeithiol. Mae'r ysgol wedi cyflwyno cynllun 'Balchder Bodringallt' yn llwyddiannus er mwyn codi balchder y disgyblion tuag at eu gwaith.

Ers mis Medi, mae'r ysgol wedi addasu ei chynlluniau gwaith ac wedi mapio'r gwahanol ffurfiau ysgrifennu ar draws y meysydd dysgu a'r cwricwlwm. O ganlyniad, mae disgyblion yn cael cyfleoedd cyson i ddatblygu'r ffurfiau hyn ar draws ystod o bynciau.

Mae mwyafrif y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau ysgrifennu. Mae llawer ohonynt yn ysgrifennu'n annibynnol yn gysylltiedig â gwaith thema'r dosbarth, gan ddefnyddio geirfa a chystrawen sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Maent yn llunio darnau i wahanol bwrpasau ac mewn ystod o gyd-destunau priodol erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen. Mae mwyafrif yn sillafu geiriau cyfarwydd yn gywir ac yn gwneud defnydd priodol o atalnodi sylfaenol, gan gynnwys defnyddio dyfynodau. Mae ychydig o ddisgyblion sydd yn fwy abl yn datblygu eu syniadau'n synhwyrol gan ddefnyddio ffurf gryno'r ferf yn rheolaidd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan rhan fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth dda o nodweddion gwahanol ffurfiau ysgrifenedig, ac erbyn diwedd y cyfnod maent yn cael cyfleoedd cyson i ysgrifennu i gynulleidfaoedd amrywiol yn y ddwy iaith. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu syniadau'n synhwyrol yn unol â nodweddion y ffurf ysgrifennu. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos gafael gadarn ar strwythur brawddegau, atalnodi a defnydd effeithiol o eirfa yn unol â'r dasg. Mae safonau ysgrifennu ychydig o ddisgyblion mwy abl yn dda; maent yn defnyddio ystod o eirfa ehangach ac atalnodi ymestynnol i atgyfnerthu eu gwaith. Enghraifft o hyn yw'r modd y mae disgyblion yn llunio portread o gymeriadau ac adroddiad papur newydd o gyfnod yr Ail Ryfel Byd.

Mae gan yr ysgol system effeithiol ar gyfer asesu a safoni gwaith ysgrifennu'r disgyblion. Mae athrawon yn olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol ac yn darparu

profiadau gwerthfawr ar gyfer gwahanol grwpiau o ddisgyblion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau ysgrifennu llawer o ddisgyblion. Mae'r arweinydd llythrennedd yn cyflwyno adroddiad gwerthfawr i'r corff llywodraethol sy'n sicrhau bod gan arweinwyr drosolwg glir o safonau ysgrifennu ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae llywodraethwyr yn herio'r ysgol yn llwyddiannus i godi safonau ar draws yr ysgol.

**Argymhelliad 2: Cynllunio'n fwy bwriadus er mwyn herio disgyblion mwy abl yn gyson a gwahaniaethu'n effeithiol ar eu cyfer**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae gan yr ysgol bolisi pwrpasol sy'n nodi'n glir y strategaethau a ddefnyddir i ymateb i anghenion disgyblion mwy abl. Mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o ddata perfformiad, canlyniadau profion cenedlaethol ac asesiadau mewnol i adnabod disgyblion mwy abl ac i sicrhau darpariaeth addas ar eu cyfer o fewn y dosbarth. Mae hyfforddiant diweddar i athrawon wedi eu cynorthwyo i gynllunio'n fwy bwriadus ar gyfer y disgyblion hyn ac wedi sicrhau mwy o gysondeb yn y ddarpariaeth ar draws yr ysgol.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio gweithgareddau gwahaniaethol manwl ac maent yn defnyddio ystod briodol o strategaethau i godi safonau. Yn yr esiamplau orau, ar frig yr ysgol, mae athrawon yn gosod meini prawf llwyddiant heriol ac yn defnyddio tasgau estynedig er mwyn sicrhau bod y disgyblion mwy abl yn cyflawni'r lefelau uwch. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau bob amser yn ddigon heriol nac yn ymateb yn llawn i anghenion pob disgybl, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen.

Ers yn ddiweddar, mae technegau asesu ar gyfer dysgu ac adborth ysgrifenedig ar waith disgyblion yn fwy cyson. Bellach, mae sylwadau'r athro yn nodi'r cryfderau a'r mannau ar gyfer gwelliant yn glir. Caiff disgyblion gyfle cyson i asesu gwaith ei gilydd a gwaith cyfoedion. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Mae staff yn olrhain cynnydd yn gyson ac yn dechrau defnyddio canfyddiadau ar gyfer cynllunio ar gyfer disgyblion mwy abl.

**Argymhelliad 3: Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau ac i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain er mwyn datblygu'n ddysgwyr annibynnol**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Yn dilyn hyfforddiant ac ymweliadau i weld arfer dda mewn ysgolion eraill, mae'r staff wedi cyflwyno nifer o strategaethau i alluogi disgyblion i ddatblygu'n ddysgwyr mwy annibynnol.

Mae'r strategaethau hyn yn cynnwys defnydd effeithiol o fatiau her, coeden cwestiynau, cofnod dysgu a mapiau meddwl. Mae athrawon wedi paratoi canllawiau clir ar y waliau ar draws yr ysgol er mwyn helpu'r disgyblion i weithio'n fwy annibynnol. Mae hyn yn rhoi rôl fwy gweithredol i ddisgyblion gyfrannu at eu dysgu eu hunain. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn cynhyrchu gwaith yn annibynnol ac o safon addas. Yn gyffredinol mewn gwersi, mae lefel ymrwymiad rhan fwyaf y disgyblion yn dda.

Mae athrawon yn ymateb yn adeiladol i waith disgyblion ac yn cynnig y ffordd ymlaen. Mae strategaeth megis ‘dwy seren a dymuniad’ bellach yn cael eu defnyddio’n fwy cyson ar draws yr ysgol ac mae cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ymateb i adborth athrawon a chymryd rôl yn eu dysgu eu hunain. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar allu’r disgyblion i weithio’n annibynnol. Er hynny, nid yw hyn yn gyson ar draws y pynciau ym mhob dosbarth.

Trwy waith y senedd ysgol a’r cynghorau ysgol, mae disgyblion yn cyfrannu’n helaeth i benderfyniadau’r ysgol. Enghraifft nodedig o hyn yw’r modd mae disgyblion wedi cyfrannu eu syniadau i ddatblygu’r ardal chwarae allanol.

**Argymhelliad 4: Mynd i’r afael ar frys â’r mater sy’n ymwneud â iechyd a diogelwch**

Cynnydd da iawn wrth fynd i’r afael â’r argymhelliad

Mae’r ysgol wedi cydweithio’n agos â’r awdurdod lleol er mwyn mynd i’r afael â’r mater iechyd a diogelwch a godwyd yn ystod yr arolygiad. Mae camau priodol wedi eu cymryd er mwyn sicrhau diogelwch y disgyblion.

**Argymhelliad 5: Parhau i gydweithio gyda’r awdurdod lleol i ddatblygu safle’r ysgol er mwyn gweithredu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn llawn**

Cynnydd cryf wrth fynd i’r afael â’r argymhelliad

Mae’r staff wedi derbyn hyfforddiant buddiol er mwyn datblygu eu gwybodaeth am ddulliau addysgu ac egwyddorion y Cyfnod Sylfaen. Maent hefyd wedi cryfhau eu dealltwriaeth o ddisgwyliadau deilliannau’r cyfnod trwy ymweld ag ysgolion eraill i arsylwi ar arfer dda. Mae’r ysgol wedi cydweithio’n llwyddiannus â swyddogion Cyfnod Sylfaen yr awdurdod lleol er mwyn datblygu ardaloedd mewnol ac allanol yr ysgol. Mae’r ardaloedd mewnol wedi eu strwythuro’n bwrpasol, gydag ardaloedd dynodedig yn amlwg ym mhob dosbarth. Mae gwelliannau i’r ardaloedd allanol wedi bod yn fenter lwyddiannus wrth i’r ysgol weithio ar y cyd gyda rhieni, disgyblion a swyddogion yr awdurdod lleol. Er enghraifft, adeiladwyd cysgodfa bwrpasol er mwyn cynnig mynediad priodol i weithgareddau awyr agored.

Mae’r ysgol yn cynllunio’n briodol ar gyfer datblygu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a medrau disgyblion. Mae’r cynlluniau’n adeiladu ar ddysgu blaenorol yn addas ac yn sicrhau dilyniant a pharhad wrth ddatblygu medrau llawer o ddisgyblion. Mae’r profiadau dysgu yn ennyn diddordeb ac yn diwallu anghenion llawer o ddisgyblion. Trwy gyd-gynllunio gyda’r athrawon a chefnogi grwpiau o ddysgwyr, mae cymorthyddion dysgu'r Cyfnod Sylfaen yn cyfoethogi’r ddarpariaeth yn briodol. Fodd bynnag, nid yw’r cynllunio bob tro’n diwallu anghenion pob disgybl yn ddigonol nac yn hyrwyddo annibyniaeth disgyblion yn ddigon cyson.

**Argymhelliad 6: Cryfhau cyfrifoldebau arweinyddol aelodau'r uwch dîm rheoli fel eu bod yn gweithredu'n fwy strategol**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad.

Mae tîm rheoli'r ysgol bellach yn fwy sefydlog. O dan arweiniad cadarn iawn y pennaeth, a gyda chefnogaeth yr awdurdod lleol, mae'r ysgol wedi sefydlu gweithdrefnau effeithiol i gryfhau trefniadau arwain a rheoli'r ysgol. Mae dealltwriaeth yr arweinwyr o'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn gwella agweddau penodol o'r ddarpariaeth a deilliannau disgyblion yn gadarn.

Mae cyfrifoldebau'r uwch dim rheoli yn gytbwys ac mae'r aelodau yn ymdrin â'u cyfrifoldebau'n llwyddiannus. Maent wedi ymgymryd â gweithgareddau gwerthfawr i fonitro agweddau o ddysgu ac addysgu. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau hyn yn rhoi ffocws clir ar fonitro safonau disgyblion ac yn cynnwys defnydd da o ddata cyrhaeddiad. Mae cyswllt amlwg rhwng gwaith hunanarfarnu'r uwch dim rheoli a chynlluniau datblygu'r ysgol. O ganlyniad, mae'r uwch dîm rheoli yn cyfrannu'n effeithiol at osod cyfeiriad strategol yr ysgol. Maent yn cynnal cyfarfodydd buddiol yn rheolaidd sy'n canolbwyntio'n llwyddiannus ar yr agweddau strategol sydd angen eu gwella. Mae cofnodion y cyfarfodydd yn fanwl ac yn galluogi arweinwyr i adolygu cynnydd yn erbyn targedau gwelliant yr ysgol yn effeithiol.

**Argymhelliad 7: Datblygu rôl y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae cyfathrebu rhwng yr ysgol ac aelodau o'r corff yn dda iawn. Mae'r llywodraethwyr bellach yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau fel arweinwyr strategol ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o fywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd i fynd i'r afael â nifer o flaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae cofnodion y cyfarfodydd yn fanwl ac yn galluogi'r corff i herio'r ysgol ar gynnydd yn erbyn targedau gwelliant yr ysgol yn effeithiol iawn.

Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth dda o berfformiad yr ysgol. Maent yn gwneud defnydd llwyddiannus o ddadansoddiad data er mwyn herio perfformiad yr ysgol, yn enwedig o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae ganddynt gyswllt uniongyrchol ag agweddau o fywyd yr ysgol ac mae trefn briodol o is-bwyllgorau yn sicrhau eu hymrwymiad i gyfeiriad strategol yr ysgol yn dda.

Mae'r llywodraethwyr yn dilyn amserlen fonitro sy'n seiliedig ar flaenoriaethau'r cynllun datblygu. Maent yn casglu gwybodaeth am berfformiad yr ysgol trwy graffu ar lyfrau, ymweliadau dosbarth, a theithiau cerdded rheolaidd o gwmpas yr ysgol. Cânt gyfleoedd priodol i rannu eu profiadau gyda'r corff llywodraethol llawn yn dilyn eu hymweliadau â'r ysgol. Mae llywodraethwyr yn defnyddio'r deilliannau monitro hyn yn strategol er mwyn herio arweinyddiaeth yr ysgol yn effeithiol i godi safonau; er enghraifft, i godi safonau ysgrifennu ar draws yr ysgol. Maent yn defnyddio'r wybodaeth i gyfrannu at ddogfennau hunanarfarnu a chynlluniau gwella'r ysgol yn llwyddiannus.

Mae llywodraethwyr wedi mynychu nifer o gyrsiau hyfforddiant perthnasol yn ystod y flwyddyn ac mae hyn wedi sicrhau bod ganddynt ymwybyddiaeth well o'u rôl statudol. O ganlyniad, mae'r corff llywodraethol yn wybodus iawn am berfformiad yr ysgol a'r hyn sydd angen ei wella. Maent yn gweithredu fel cyfeillion beirniadol effeithiol iawn trwy herio'r ysgol yn fedrus er mwyn sicrhau gwelliant yn y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion. Er enghraifft, maent yn defnyddio'u gwybodaeth yn dda er mwyn herio safonau disgyblion mwy abl.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r ysgol barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi'i wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud rhagor o gynnydd.